hyn i'r Cyngor llawn diwethaf, ond iddo gael ei wrthod. Mewn ymateb, nodwyd petai'r gwerthusiad o'r gyfundrefn yn profi bod angen newid y drefn, byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar hynny o ddifri'.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd y byddai'r adolygiad o'r gyfundrefn drochi yn adolygiad mewnol, ond yn cynnwys llais pawb.

Holwyd faint o blant Saesneg fel iaith Ychwanegol oedd yna yng Ngwynedd, yn benodol felly yn y sector cynradd. Mewn ymateb, nodwyd y gellid darparu'r union ffigwr ar gyfer yr aelod.

Holwyd beth oedd sefyllfa'r Polisi iaith o safbwynt plant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg, a holwyd pam nad oeddent, yn y sector cynradd o leiaf, yn mynd ati'n syth i ddysgu Cymraeg. Holwyd hefyd pa wersi y gellid eu dysgu o edrych ar y gyfundrefn dysgu Saesneg, sydd hefyd yn faes arbenigol ieithyddol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod plant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg yn cael eu derbyn yn syth i'r canolfannau iaith, a'u bod hefyd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oedd yna bolisi bod rhaid i'r plant ddysgu Saesneg yn gyntaf.
- Bod 4% o'r plant yn y canolfannau iaith y tymor diwethaf yn blant oedd wedi cyrraedd heb unrhyw Gymraeg na Saesneg.
- Bod y Gwasanaeth a'r Tîm Saesneg iaith Ychwanegol yn rhannu gwerthoedd ac egwyddorion trochi, a hefyd yn cynnal hyfforddiant gydag ysgolion sydd wedi derbyn mewnbwn sylweddol o blant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg.
- Y ceisid sicrhau nad yw'r plant yn cael mewnbwn gan y ddau dîm ar yr un pryd a'u bod yn dod i'r canolfannau iaith yn gyntaf ac wedyn yn derbyn cefnogaeth gan y Tîm Saesneg iaith Ychwanegol.

Nodwyd:-

- Bod y Gwasanaeth leuenctid wedi'i leoli mewn 3 adran wahanol o'r Cyngor dros y 2 flynedd ddiwethaf, a hefyd wedi bod trwy gyfnod o ail-strwythuro eithaf sylweddol.
- Bod yr adroddiad yn sôn am edrych ar gyfleoedd cyllidebol newydd, a holwyd beth a olygid gan hynny.
- Bod holiadur a rannwyd gyda phobl ifanc cyn y Nadolig yn gymhleth dros ben a bod hynny'n codi pryder ynglŷn â dibynadwyedd yr ymgynghori.
- A fyddai'r adolygiad o'r Gwasanaeth yn golygu cynnal ymgynghoriad llawn, neu ddarparu holiadur yn unig?

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y croesawid y Gwasanaeth leuenctid i'r Adran Addysg a chredid mai dyma ei gartref naturiol o fewn y Cyngor o ystyried y gwaith arbennig mae'r Gwasanaeth yn ei wneud gyda'r ysgolion.
- Bod yna waith da yn digwydd hefyd gyda'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgolion, ac sydd, o bosib, angen cefnogaeth i symud ymlaen o ran eu bywyd gwaith a hyfforddiant, ayb, ac roedd hynny eto'n ffitio'n dda o fewn y gyfundrefn addysg.
- Bod y gwaith leuenctid cymunedol yn cael ei ariannu gan wahanol ffynonellau ariannol a grantiau, ayb, a dymunid edrych ar gysondeb y ddarpariaeth ar draws yr ardaloedd.
- Bod y cymorth leuenctid o ran ysgolion yn gyson ac ar gael yn yr ysgolion i gyd a bod yna ganmol i'r gwaith sy'n digwydd yn amlasiantaethol.
- Bod y gwaith hynod o dda o ran y dysgwyr ôl-16 yn digwydd yn unol â'r fframwaith ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n gadael addysg a hyfforddiant.
- O ran y sylw ynglŷn â chymhlethdod yr holiaduron, byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar hynny ac yn sicrhau bod y cynnwys yn glir a dealladwy i bawb.

- O ran y goblygiadau cyllidol, er bod yna dorri ar y Gwasanaeth leuenctid o ran y toriadau sydd wedi'u hamlygu, bod y Gwasanaeth yn ffodus i ryw raddau bod swyddi gweigion, ac ati, yn golygu bod modd torri heb golli unigolion allweddol o'r gwasanaeth.

Nodwyd:-

- Na chytunid mai'r Adran Addysg yw'r lle perffaith ar gyfer y Gwasanaeth leuenctid ac y dylai fod yn wasanaeth ar wahân sy'n pontio sawl adran o ystyried bod Cynllun y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu cyfleoedd hamdden a chymdeithasu y tu allan i sefydliad addysg ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd bod yn rhan o addysg arferol ers cyfnod y pandemig, a bod y Gwasanaeth leuenctid yn hynod bwysig, fel gwasanaeth ataliol bron, fel nad yw pobl ifanc yn mynd i sefyllfa anodd.
- Bod y gwaith mae'r Gwasanaeth leuenctid yn wneud ar hyn o bryd gydag adnoddau prin yn anhygoel.
- Bod y ddarpariaeth wych a gynigir gan yr elusen Porthi Dre yng Nghaernarfon yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i les pobl ifanc.
- Bod yr adroddiad yn sôn bod 1,300 o achrediaid wedi'u cwblhau gan bobl ifanc, ac er bod hyn yn lwyddiant i'r bobl ifanc, dylid cwestiynu beth mewn difri' yw gwerth yr achrediaid hyn ar y diwedd. Holwyd a oedd y Gwasanaeth yn cysylltu â'r bobl ifanc hynny sydd wedi cwblhau achrediaid yn y gorffennol i ofyn a fu'r achrediaid hynny o gymorth iddyn nhw gael gwaith neu hyfforddiant. Nodwyd hefyd mai'r flaenoriaeth i bobl ifanc yw cael cyfle i hamddena a chymdeithasu ac y gallai'r angen i gwblhau achrediaid fod yn faen tramgwydd i bobl ifanc ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth leuenctid.
- Bod yr adroddiad yn nodi bod y Gwasanaeth leuenctid wedi ymgysylltu gyda 65% o bobl ifanc o Haen 1 a 2 (Nifer o bobl ifanc mwyaf bregus Gwynedd), sy'n golygu na lwyddwyd i ymgysylltu gyda'r 35% arall. Tra'n cydnabod nad yw'n bosib' cyrraedd pawb, a bod yna gynnydd aruthrol wedi bod yn y galw, holwyd pa gynllunio ymlaen llaw sy'n digwydd i sicrhau gallu cyrraedd y galw yn well.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr ateb o ran sut i gael mwy i ymgysylltu â'r Gwasanaeth leuenctid i'w weld yn y ffaith bod y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r plant o fewn yr ysgolion, a hynny mewn ffordd wahanol i'r athrawon a'r cymorthyddion.
- Y cytunid y gallai'r angen i gwblhau achrediaid fod yn faen tramgwydd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Gwasanaeth leuenctid, a bod angen edrych ar hynny. Er hynny, roedd rhai pobl ifanc, megis unigolion sydd ddim yn ymgysylltu cystal yn yr ysgol, yn cael gwir werth o'r achrediaid gan eu bod yn caniatáu iddynt gael gwell mynediad i addysg bellach, ayb, na fyddent yn ei gael drwy'r cwricwlwm ysgol yn unig.
- O ran hyrwyddo mwy o bobl ifanc i fod yn rhan o'r Gwasanaeth leuenctid, bod yna strategaeth ar hyrwyddo'r Gwasanaeth ar waith ac o bosib' y byddai ymweld â Phorthi'r Dre yn un ffordd o gael pobl ifanc i ymgysylltu'n well gyda'r Gwasanaeth leuenctid.

Nododd y cynrychiolydd undebau athrawon fod ganddi gwestiynau i'r Pennaeth Addysg a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, ond yn anffodus, bod raid iddi adael y cyfarfod. Gofynnodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE iddi ebostio'r cwestiynau ato fel y gallai ymateb yn uniongyrchol.

Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi bod gan 99.16% o staff yr ysgolion DBS cyfredol, sy'n ganran uchel iawn, ond y dylai fod yn 100%, a holwyd ai'r ffaith bod ceisiadau yn cael eu prosesu, ayb, oedd y rheswm am hynny. Mewn ymateb, nodwyd:

- Y dylai'r ganran fod yn 100% yn amlwg a bod yr Adran yn gweithio tuag at hynny. Er hynny, roedd cyrraedd 100% bron yn amhosib', yn enwedig os oes unigolion wedi'u hatal o'r gwaith ac felly'n methu cael prosesu eu DBS, ond yn dal ar y gyflogres tra mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo. Hefyd, roedd yna athrawon llanw, sydd ddim bellach yn dysgu, ond yn parhau ar restr yr Awdurdod, ac un neu ddau o unigolion sy'n disgwyl eu canlyniadau, ayb, o ran y DBS.
- Bod gan yr Awdurdod restr yn nodi ym mha ysgolion ac ym mha wasanaeth mae'r unigolion sydd heb DBS a bod yna Swyddog Diogelu yn cysylltu â phob un ohonynt yn fisol er mwyn sicrhau bod y nifer mor isel ag y gall fod.
- Bod y niferoedd staff sydd heb DBS cyfredol wedi gostwng o 96 i 26 mewn 3 mis.

Holwyd a ellir bod yn glir a yw nifer y plant sy'n cymryd cinio ysgol ar gynnydd ai peidio, ac a yw'r ymgyrchoedd i gael plant i fwyta'n iach yn effeithio ar hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cynnig o ginio am ddim i ddysgwyr cynradd o'r Flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yn weithredol yng Ngwynedd ers dechrau mis Medi diwethaf, ac er bod y ddarpariaeth ar gael ar gyfer y plant, bod gwaith i'w wneud eto o ran cwblhau gosod offer mewn ceginau, ac ati.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n cymryd cinio ysgol ers mis Medi, er, o bosib', nad oedd y cynnydd hwnnw gymaint â'r disgwyl mewn rhai ysgolion, ac roedd lle i fod yn hyrwyddo dipyn mwy ar y cynnig.
- O bosib' bod rhai yn dal i feddwl nad yw'r cynnig yn agored i bawb a bod yr ymdeimlad o stigma ynghlwm â chinio am ddim yn parhau.
- Bod bwriad i gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor hwn ym mis Mawrth ar y Prosiect Cinio am Ddim, ac erbyn hynny, byddai'r Adran wedi casglu barn penaethiaid ynglŷn â pha gynnydd maen nhw'n teimlo sydd wedi bod yn eu hysgolion, ydi hynny wedi gwella ar yr elfen bwyta'n iach gan blant ac ydi o wedi effeithio'n gadarnhaol ai peidio ar ymddygiadau neu addysg y plant yn ystod y cyfnodau ar ôl amser cinio.
- Y byddai'r Adran hefyd yn gweithio gyda dwy ysgol ar gynllun peilot i geisio gweld i ba raddau y gellir gweithio'n fwy dwys gyda rhai teuluoedd i geisio'u hannog i fanteisio ar y cynnig.

Nodwyd bod y diwrnod ysgol yn gallu bod yn ddrud i rieni, a holwyd a oedd gwaith ar droed i asesu a oes yna blant yn methu ysgol oherwydd bod eu rhieni'n methu fforddio popeth sydd ei angen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna waith yn digwydd ar hyn o bryd i edrych yn benodol ar gost gyrru plentyn i'r ysgol yng Ngwynedd.
- Bod ymateb rhieni hyd yma i'r holiaduron a anfonwyd at randdeiliaid wedi bod yn dda, yn egluro'r rhwystredigaeth, nid yn unig o ran y ffaith bod yna gostau, ond bod y costau hynny'n tueddu i ddigwydd ar yr un amser. Byddai'r Adran yn edrych hefyd oes yna sylwadau ynglŷn â phresenoldeb yn benodol yn yr ymatebion ddaw yn ôl.

Holwyd beth oedd y rheswm dros y bwlch rhwng yr hyn sydd yn y gyllideb a gwir gost cludiant ysgol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gyllideb cludiant yng Ngwynedd yn gor-wario ers blynyddoedd lawer a bod rhaid edrych ar hynny dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- Bod y sefyllfa'n gymhleth a'r gyllideb cludiant yn anodd i'w rheoli am nifer o resymau, gan gynnwys plant yn symud ysgolion, plant yn symud i mewn ac allan o ofal, rhai plant gydag anghenion arbennig sy'n cael eu cwrdd y tu hwnt i'r ardal leol, yr angen i gludo plant i ystod o sefydliadau gwahanol, gan gynnwys canolfannau ABC, canolfannau iaith ac ysgolion arbennig, y ffaith bod y contractwyr yn gyfuniad

o gwmnïau bysus a thacsis a bod ambell contractwr yn rhoi'r gorau i'r contract ac yn ail-dendro am y contract am bris uwch.

- Bod bwriad i benodi Rheolwr Cludiant ar gyfer yr Adran Addysg yn y dyddiau nesaf fel bod un person o fewn yr Adran yn cymryd cyfrifoldeb dros gludiant.
- Bod rhaid edrych ar y galw a'r ddarpariaeth er mwyn gweld oes yna ffordd fwy cost-ffeithiol o gludo plentyn o A i B, ond roedd honno'n dasg ynddi'i hun o ystyried nad oes, efallai, ond un cwmni yn y farchnad am y contract mewn rhai ardaloedd gwledig.

Holwyd a oedd gan yr Awdurdod ddarpariaeth i sicrhau bod cynlluniau cydraddoldeb yn cael eu rhoi mewn lle yn yr ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd, yn sgil diweddaru'r modelau o bolisïau a chynlluniau yn wyneb y canllawiau newydd, y byddai'r Adran yn rhoi'r arfau gorau i'r ysgolion ddatblygu eu cynlluniau cydraddoldeb unigol eu hunain.

Holwyd a oedd yna broses mewn lle i sicrhau bod plant mewn gofal yn mynychu'r ysgol gymaint â phosib' ac a oedd gan yr Adran y capasiti i gwrdd â phob gofyn statudol o ran plant mewn gofal. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gennym y capasiti, ond bod yna broblem o ran mynediad at ddata fel bod modd targedu plant mewn gofal yn amserol gan fod plant yn mynd i mewn ac allan o ofal cyn bod modd darparu unrhyw beth ar eu cyfer o ran yr ysgolion.
- Bod yr Adran yn edrych ar hyn yn benodol a bod y data yn ymestyn ymhellach na phresenoldeb yn unig, ac yn ymwneud â chyrhaeddiad plant mewn gofal yn ogystal.
- Ei bod yn anodd iawn cael gafael ar ddata sy'n dangos lle dylai plentyn mewn gofal fod o ran cyrhaeddiad addysgol a dod i farn ynglŷn ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth.
- Bod y Tîm Data yn edrych ar bresenoldeb plant mewn gofal o gymharu â phlant eraill ac yn darganfod ffyrdd dychmygol iawn o ddatrys llawer o'r rhwystrau o ran casglu gwybodaeth o fewn yr ysgolion.

7B ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2022-23

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23.

Rhoddodd yr Uwch Arweinydd Rhanbarthol – Ysgolion Cynradd ac Arbennig drosolwg o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd y dymunid cydnabod a diolch i'r cymorthyddion dosbarth am roi eu hamser i fynd ar hyfforddiant ac am ymgymryd â'r rôl o ddifri' yn eu gwaith bob dydd. Mewn ymateb, nodwyd y cytunid â'r sylw a bod cymorthyddion effeithiol yn ychwanegu gwerth sylweddol i ysgol.

Nodwyd ei bod yn dormalonnus bod cymorthyddion profiadol gyda blynyddoedd lawer o brofiad a gwybodaeth yn y maes yn gadael i fynd i swyddi eraill sy'n talu gwell cyflog.

Nodwyd bod yr adroddiad yn llawn iaith ansoddeiriol canmoliaethus a bod paragraff cyntaf y Crynodeb Gweithredol ar dudalen gyntaf yr adroddiad yn cael ei ail adrodd air am air dan y pennawd Rhagarweiniad a Chyd-destun. Mewn ymateb, nodwyd bod y paragraff cychwynnol sy'n ymddangos yn y Crynodeb Gweithredol ac yn yr adroddiad ei hun yn ddyfyniad o ganfyddiadau Estyn ar y gwasanaeth, nid yn unig yn lleol yng Ngwynedd, ond yn gyson ar draws 6 awdurdod y Gogledd.

Nodwyd na anghytunid â'r prif flaenoriaethau gwella, ond gofynnwyd am sicrwydd y bydd yr un rhestr o flaenoriaethau yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol nesaf, gydag unrhyw gynnydd yn erbyn y materion hynny wedi'i adnabod. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran y drefn adrodd, bod yr elfennau sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen eu datblygu yn mynd i mewn i'r cynlluniau busnes.
- Bod y blaenoriaethau gwella hyn yn gynwysedig yn y cynlluniau busnes sy'n weithredol ar y funud, a phan fyddai cyfle i adrodd eto ymhen blwyddyn, byddai'r rhain yn sail i ddangos cynnydd yn erbyn y materion sydd wedi'u hadnabod.

Nodwyd nad oedd yna unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at brofion PISA a holwyd sut y bwriadai GwE ymateb i ganlyniadau'r profion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Oherwydd natur a chefnidir Cymru, ei bod yn ymddangos bod Cymru wedi'i heffeithio'n waeth yn dod allan o'r cyfnod Cofid na nifer o wledydd tebyg i ni.
- Bod profion PISA yn un o ddangosyddion cenedlaethol y Llywodraeth fel rhywbeth sy'n dangos pa mor effeithiol ydi'r gyfundrefn addysg, ond bod perygl mewn gwneud gosodiadau ar brofion rhyngwladol.
- Os yw profion PISA yn mynd i fod yn ddangosydd cenedlaethol sy'n cael ei gyfri' a'i fesur yn ei erbyn, bod rhaid cael strategaeth genedlaethol glir mewn lle sy'n cael ei chefnogi o lefel llywodraeth i wasanaethau fel GwE, ac hefyd i lefel ysgol er mwyn gwneud yn siŵr bod ein disgyblion mwyaf abl yn cael y cyfleoedd i arddangos eu gallu.

Holwyd pa mor bwysig yw llywodraethwyr da i ysgol symud yn ei blaen a beth yw disgwyliadau GwE o lywodraethwyr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai rôl llywodraethwr yw bod yn gyfaill beirniadol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion.
- Bod yna wahoddiad bob amser i lywodraethwyr ymuno ym mheth o'r gwaith mae GwE yn ei wneud yn yr ysgolion, gyda cydweithrediad y pennaeth, e.e sut rydym yn dod i farn ar wahanol bethau, pa dystiolaeth rydym ni'n edrych arni, pa mor dda mae ysgol yn adnabod ei hun (sydd hefyd yn cynnwys llywodraethwyr), beth ydi'r blaenoriaethau a beth a wneir yn eu cylch.
- Y drefn naturiol wedyn fyddai craffu'r materion hyn yn y corff llywodraethol er mwyn adnabod y blaenoriaethau a sut i wella.
- Petai yna ddymuniad i gynnal gweithdai penodol i lywodraethwyr yn y rôl yna'n benodol, diau y gellid trefnu hynny mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Addysg. Byddai hefyd angen cyfle i dywys cynghorwyr drwy'r wybodaeth yn y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd o ran beth yw'r cyfrifoldebau a sut i gyflawni'r rôl mewn ffordd sy'n newid ychydig bach wrth i ni fynd yn ei blaenau.

Awgrymwyd y byddai'r adroddiad blynyddol yn llawer cliriach petai'n llawer mwy cryno a gofynnwyd i GwE gymryd hyn i ystyriaeth ar gyfer y dyfodol.

Holwyd a fyddai GwE yn rhan o'r gwaith o fonitro'r Siarter Iaith newydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd hynny'n hysbys eto gan fod arian y Gymraeg, a arferai ddod i GwE, yn gorwedd gyda'r awdurdodau yn ei gyfanrwydd ers blwyddyn bellach.
- O ran fframwaith y Siarter Iaith newydd, y byddai'r gwaith monitro yn cael ei wneud gan Gydlynnydd y Siarter Iaith Gwynedd a Môn a Thîm y Gymraeg yn yr awdurdod. Fodd bynnag, roedd hynny'n mynd i fod yn dipyn o her o ystyried nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Gwynedd gyfan a'r ffaith bod y Cydlynnydd yn rhannu ei hamser rhwng Gwynedd a Môn.
- Bod yr Adran yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar y goblygiadau ariannol o ran y Gymraeg yn gyfangwbl o ran y Bil Addysg Gymraeg

fel bod modd cyfrifo a chynnig rhagolygon gwariant o beth fydd effaith cyflwyno'r Bil yn y gobaith y bydd y Llywodraeth yn clustnodi swm o arian i gyd-fynd â hynny.

- Petai'r Awdurdod yn gweld bod yna rôl comisiwn i GwE o ran gwneud y gwaith monitro ochr yn ochr â'r Awdurdod, neu ar ran yr Awdurdod, byddai modd cael trafodaeth ynglŷn â hynny.

Mynegwyd y farn bod yr adroddiad yn un tra arwynebol, yn enwedig yr adrannau gwerthuso pwysig sy'n dod o dan y pennawd '*Mynd i'r afael â gwelliannau pellach*', a bod rhai o'r gwelliannau, megis '*parhau i adnabod sut mae cynnydd yn edrych er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn fwriadus dros amser*' yn amwys iawn. Holwyd hefyd i ba raddau mae GwE yn monitro data llithriad a chynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg, ac yn goruchwyllo hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd GwE yn monitro data a chynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd.
- O ran sylw blaenorol yn ystod y cyfarfod ynglŷn â gweld yr argymhellion yn yr adroddiad blynyddol nesaf, ei bod yn bosib, unwaith eto, y bydd hyd a lled yr hyn y gall GwE ei gynnig yn dipyn llai wrth i ni symud yn ein blaenau, ac roedd honno'n drafodaeth i'w chael dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- Bod sylw wedi'i wneud fwy nag unwaith yn ystod y cyfarfod ynglŷn ag amwysedd iaith yr adroddiad, ond o ran hyd adroddiadau, mater bach fyddai darparu adroddiad llawer mwy cryno. Fodd bynnag, byddai hynny'n codi cwestiwn o ran y gwerth mae'r Cyngor yn gael o ddogfen mor fyr, gan gofio bod yna gynulleidfa allanol hefyd, sef yr arolygwyr.
- Bod rhaid cael y cydbwysedd yn iawn i fedru dangos beth yw hyd a lled y rhychwant o wasanaeth mae GwE yn eu rhoi i'r ysgolion.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

8. PROSIECT ADDYSG ÔL-16 YN ARFON

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar daith y Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac yn gwahodd sylwadau'r craffwyr.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd siomedigaeth â'r adroddiad ar y sail:-

- Nad oedd sôn yma am gysoni addysg ôl-16 ar draws Gwynedd.
- Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at yr ochr academiaidd, ni cheid unrhyw gyfeiriad at yr ochr galwedigaethol a chredid bod gwahanu'r ddwy garfan o blant yn 16 oed yn gamgymeriad anferth.
- Mai mantais coleg trydyddol yw ei fod yn cadw'r dysgwyr i gyd hefo'i gilydd hyd 18 oed ac roedd yn drist nad oedd plant Arfon yn cael yr un cyfle â phlant Dwyfor a Meirionnydd.

Mewn ymateb, nodwyd bod modd i'r disgyblion yn Arfon astudio pynciau academiaidd a phynciau galwedigaethol drwy'r chweched dosbarth yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chwmni Iaith Cyf a gomisiynwyd i gyflawni gwaith ymchwil yn y maes ar ran yr Adran Addysg. Mewn ymateb, nodwyd bod Cwmni Iaith Cyf yn gwmni allanol gyda phrofiad dros nifer o ddegawdau o gynllunio ieithyddol, a phrofiad hefyd yn y maes addysg a hyfforddiant.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 4.00yp.

Cadeirydd

Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Dyddiad :	21 Mawrth 2024
Teitl:	Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24
Aelod Cabinet :	Cyng. Dyfrig Siencyn
Awdur :	Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned Hedd Vaughan Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Uchelgais Gogledd Cymru
Adran:	Economi a Chymuned

1. PAM FOD ANGEN CRAFFU

- 1.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DG gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd ar gynnydd y Cynllun Twf yn rheolaidd yn un o ofynion y Cytundeb Terfynol. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.
- 1.2. Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno adroddiad Chwarter 3 y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio er sylw Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd.

2. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 2.1 Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn sydd yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd yn y gwaith:
 - Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter3
 - Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2023
- 2.2 Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3
 - 2.2.1 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 3 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.
 - 2.2.2 Y chwarter hwn, gwelwyd cymeradwyo diweddariad Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
 - 2.2.3 Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Achosion Busnes Amlinellol dri prosiect yn ystod y chwarter sef y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Egri ac Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy. Hefyd cafodd Achos Fusnes Llawn prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter, sydd yn gam mawr ymlaen ar gyfer y Cynllun Twf.
 - 2.2.4 Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio. Mae tri prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:
 - Cysylltu yr Ychydig % Olaf – Mae gweithgaredd caffael ar y prosiect wedi'i atal nes bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau dyddiad lansio ei hymyrraeth newydd, disgwylir iddo gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 i'w lansio yn 2024. Mae'n debyg bydd yr ymyrraeth newydd gan Llywodraeth y DU yn cyfarch neu gwella ar amcanion gwario y prosiect.

- Porth y Gorllewin, Wrecsam – mae angen adolygiad o'r prosiect i asesu'r gwaith o'i gyflawni gan ystyried y Panel Adolygu Ffyrdd a phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad priffyrdd.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Mae gwaith arolygu ar y gweill yn unol â chais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW.

2.5 Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2023

- 2.5.1 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.
- 2.5.2 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chatau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.
- 2.5.3 Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys capasiti, oedi, fforddiadwyedd, buddsoddiad sector gyhoeddus a preifat, caniatáu ac amcanion gwariant. Mae un sgôr risg gweddilliol wedi lleihau. Mae'r risg ar y cyd-destun economaidd wedi cynyddu o ganlyniad i'r materion byd eang datblygol sy'n effeithio ar y gadwyn gyflenwi a'r farchnad ynni sy'n debygol o effeithio ar gostau yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'r risg o oedi wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn goch oherwydd y cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter gan gynnwys cymeradwyaeth yr OBC a'r FBC.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1. **Fod y Pwyllgor yn craffu perfformiad Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu'r Cynllun Twf ac yn derbyn fod mesurau lliniaru mewn lle i ymateb i'r risgiau.**

ATODIADAU:

Atodiad 1	Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3
Atodiad 2	Cofrestr Risg y Portffolio - Ionawr 2023

Cynllun Twf Gogledd Cymru

2023-24 Chwarter 3

(Hydref – Rhagfyr 2023)

Adroddiad Perfformiad

Tud. 27

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
2. Perfformiad y Portffolio	4
3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol.....	5
4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel	8
5.Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo	11
6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	15
7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.....	17
8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau.....	19
9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf	20
10. Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni	21
11. Cynllun Twf - Proffil Gwariant Cyfalaf	22
11. Cynllun Twf - Proffil Gwariant Cyfalaf wedi'i Addasu yn ôl Risg.....	23
12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyranriad Cyllid Cyfalaf	24
ADODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf.....	25

Yn ystod y chwarter hwn, gwelsom gynnydd sylweddol wrth gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf

Cymeradwywyd Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiectau Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy ac Egni gan y Bwrdd Uchelgais ac argymhellwyd bod Achosion Busnes Llawn yn cael eu paratoi i'r Bwrdd eu hystyried yn dilyn cwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter gan y Bwrdd. Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer y Cynllun Twf a bydd yn gweld y prosiect yn dechrau ar y safle ym mis Chwefror 2024 gyda Wynne Construction wedi'u penodi fel y prif contractwr ar gyfer datblygiad Plas Coch.

Mae Achos Busnes y Portffolio sydd wedi'i ddiweddarau bellach wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

Cynhaliwyd yr Adolygiad Porth Portffolio o'r Cynllun Twf gan y panel o arbenigwyr annibynnol yn ystod mis Hydref. Rhoddodd yr adroddiad sgôr hyder Ambr-Coch gan nodi 15 o argymhellion i ni fynd i'r afael â nhw. Cyflwynwyd cynllun gweithredu i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Rhagfyr.

Cynhaliwyd adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) dilynol ym mis Rhagfyr, a oedd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion. Rhoddodd yr adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu gradd hyder 'Ambr-Gwyrdd' gan ddangos cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Cwblhaodd Savills waith ar eu hadroddiad Dadansoddiad Buddsoddi, a chyflwynwyd cyfres o egwyddorion buddsoddi sylfaenol i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Rhagfyr. Bydd gwaith ar Strategaeth Fuddsoddi fanwl yn parhau gyda'r nod o gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Chwefror.

Gan edrych ymlaen, mae 2024 yn addo i fod yn flwyddyn gyffrous i Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf, a disgwylir cynnydd sylweddol eleni ar ein prosiectau.



Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Alwen Williams

Themâu	Statws RAG	Sylwadau
Achos Busnes y Portffolio		Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
Piblinell Cyflawni		Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2023. Bydd y prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig hon
Llywodraethu		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau.
Sicrwydd		Mae pedwerydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Coch' ar gyfer y portffolio. Cynhaliwyd adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Gwyrdd'. Mae'r adolygiad nesaf wedi cael ei drefnu a bydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2024.
Adnoddau a Chapasiti		Mae ymgyrch recriwtio wedi bod ar waith i benodi i saith rôl yn y Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae swyddogion newydd wedi ymuno â'r tîm a bydd eraill yn ymuno yn y flwyddyn newydd, gan fynd â'r tîm i gapasiti llawn. Mae hyn yn cynnwys capasiti ychwanegol i gyflawni ar ffrydiau gwaith SPF. Mae'r contractau tymor penodol yn y tîm wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2025, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr.
Cyllid		Mae cyfanswm o £2.28m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd at ddiwedd 2022/23, gydag £1.8m o hwnnw ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol. Hyd yma yn 2023/24, mae £474k o refferniwr Cynllun Twf wedi cael ei wario.
Buddsoddiad		Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Egwyddorion Buddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, mae'r strategaeth fuddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi.
Risg		Mae ailglustnodi adnoddau'r PMO yn dilyn adolygiad PAR y Portffolio wedi cyflymu'r gwaith o ddatblygu'r OBC a'r FBC rhyw gymaint gan leihau'r risg o oedi a byddwn yn parhau gyda'r dull hwn o weithio i leihau'r risg ymhellach. Mae risgiau lefel portffolio o ran caniatâd ac mae'r oedi yn parhau i fod yn uchel yn sgil materion lefel prosiect. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn risg uchel oherwydd chwyddiant parhaus, materion yn y gadwyn gyflenwi a chynnydd mewn costau adeiladu.
Monitro a Gwerthuso Buddion		Mae'r fframwaith gwireddu buddion, monitro a gwerthuso a'r diffiniadau dangosyddion wedi'u cwblhau'n derfynol, ac mae'r tri maes olaf yn parhau i gael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru. Mae canllaw defnyddwyr system yn cael ei ddatblygu ar gyfer y system adrodd ac mae'r ail gam o hyfforddiant defnyddwyr wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Y cyhoeddiad ar gymeradwyo OBC ac FBC oedd y prif ffocws, ynghyd â hyrwyddo cyfleoedd recriwtio gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Parhau i dyfu wnaeth ein hymgysylltiad a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 6,400 o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Tud. 30	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
---------	--	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.	380	£158m	£41.7m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	- Cynhaliwyd adolygiad Porth 2 ar gyfer prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig '4G+' ym mis Tachwedd gyda'r adolygwyr yn darparu asesiad Amber-Green. Mae'r PMO bellach yn gweithio ar fynd i'r afael â meysydd i'w gwella cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'w ystyried gan y Byrddau Portffolio ac Uchelgais Economaidd. - Mae gwaith wedi parhau ar achosion busnes Campysau Cysylltiedig gydag Achos Cyfiawnhad Busnes dros fuddsoddi rhanbarthol mewn rhwydweithiau LPWAN ar gam datblygedig. - Mae'r Rhaglen yn gwneud cynnydd gyda thri phrosiect digidol y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar fin rhedeg yn ystod 2024. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys pob un o'r cynghorau'n ymchwilio i ddulliau newydd o ddefnyddio eiddo sy'n eiddo i'r cyngor i gefnogi sut mae darpariaeth symudol 4G yn cael ei darparu yn y rhanbarth. Mae cymorth ychwanegol i gymunedau i wella eu band eang a busnesau lleol yn deall opsiynau ar gyfer mabwysiadu technolegau digidol newydd hefyd yn cael ei baratoi i ddechrau yn gynnar yn 2024.



Cyng Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



David Fitzsimon
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	---

Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Cyflwyno	Dau gynnig SMRI (Menter Ymchwil Busnesau Bach) a gyflwynwyd i Her 'Rhwydwaith Rhwydweithiau' Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y DU	Cyflwyno achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer y drydedd gyfran o gyllid i brynu offer.		Mae cynnydd gyda'r gefnogaeth ar gyfer creu swyddi anuniongyrchol yn peryglu peidio â chwrdd â'r lefelau a ragwelir. Mae'r Prosiect wedi datblygu cynigion SBRI newydd i geisio mynd i'r afael â hyn ac mae'n datblygu ecosystem ddigidol o gyflogwyr i wella masnacheiddio allbynnau ymchwil y Ganolfan.
Cysylltu'r Ychydig % Olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	- Dogfennau caffael a chontractau wedi'u cwblhau. - Cais SPF yn mynd rhagddo. Mae ymgysylltu â band-llydan cymunedol yn ffrwd gwaith yn y cais.	- Llywodraeth y DU i gadarnhau'r dyddiad lansio ar gyfer ei ymyrraeth newydd. - Penderfyniad ar ail-sgopio'r prosiect o fewn y rhaglen - Caffael prosiect a ariennir gan SPF i gefnogi cymunedau		- Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig ymyrraeth newydd sy'n debygol o gyflawni neu wella amcanion gwariant y prosiect diwethaf. - Mae gweithgarwch caffael wedi'i atal tan i Lywodraeth y DU gadarnhau'r dyddiad lansio ar gyfer ei phrosiect, y disgwylir iddo gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 i'w lansio yn 2024 - Bydd prosiect SPF yn cefnogi amcanion gwariant drwy hyrwyddo cyllid i gymunedau i wella band eang yn lleol
Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	- Cymeradwyaeth PMO o Achosion Busnes Amlinellol - Adolygiad Porth 2 4G+ Tachwedd, Ambr Gwyrdd - Cymeradwyaeth y Bwrdd Rhaglen ar gyfer OBC 4G+	- Cymeradwyaeth Bwrdd Portffolio 4G + OBC - Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd 4G + OBC - Cymeradwyaeth Bwrdd Cyflawni Busnes 4G + OBC - Adolygiad Porth 2 OBC Ffibr		- Adolygiad Porth 2 o asesiad 4G + Ambr Gwyrdd gydag argymhellion nawr yn cael sylw cyn ystyriaeth y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais - Adolygiad Porth 2 OBC Ffibr i'w drefnu
Campysau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	- Cymeradwyo cais SPF, mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer asesiadau cysylltedd ar draws y rhanbarth i gefnogi amcanion y prosiect Di-wifr Uwch - Cymeradwyaeth bwrdd prosiect LPWAN BJC - SOC Di-wifr Uwch wedi'i gymeradwyo	- Caffael LPWAN - Adolygiad Porth 2 i'w drefnu ar gyfer achos busnes Di-wifr Uwch - Cymeradwyaeth bwrdd ac Adolygiad Ffrind Critigol - Adolygiad PMO OBV di-wifr uwch		- LPWAN BJC wedi'i ddatblygu gyda chymeradwyaeth y bwrdd prosiect - SOC Di-wifr Uwch wedi'i gymeradwyo ac OBC yn cael ei ddatblygu ar gyfer adolygiad PMO yn Ch4.

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.	980	£530m	£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	Egni – Mae'r OBC wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Glannau Dyfrdwy – Mae'r OBC wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Her Noddi Hydrogen – Mae'r ceisiadau wedi cael eu sgorio a'u cymedroli. Cam nesaf fydd eglurhad, cyfweiliad technegol ac argymhelliad a gyflwynir ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Mawrth 2024. Cydnerth – yn dilyn newidiadau i drothwyon Cymorth Gwladwriaethol, gellid bellach ystyried cyllid i brosiect Cydnerth fel cymhorthdal yn hytrach na buddsoddiad ar sail fasnachol. Ar hyn o bryd mae tîm Morlais Menter Môn yn gweithio ar gynnig ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru i'w ystyried y bydd angen ystyriaeth rheoli cymhorthdal ar gyfer hynny. Recriwtio – Dechreuodd Denise Creed yn rôl Swyddog Prosiect Ynni ar yr 20fed o Dachwedd a bydd Sandra Sharp yn dechrau fel Rheolwr Prosiect Ynni ar yr 22ain o Ionawr.



Cyng Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elgan Roberts
Rheolwr y Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnherth (Morlais) Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	- Prosiect Morlais wedi cwblhau. - Agorwyd Is-orsaf Morlais yn swyddogol gan y Prif Weinidog ar yr 20fed o Hydref. - Grŵp Cydweithredol a sefydlwyd i fynd i'r afael â T&Cs WEFO a mecanwaith cyllido'r Cynllun Twf. - Benthyciad gweithredol wedi'i sicrhau drwy Lywodraeth Cymru.	- OBC i'w ddiweddaru a'i gwblhau. - Cwblhau mecanwaith ariannu'r Cynllun Twf i'r prosiect sy'n cydymffurfio â threfn Rheoli Cymhorthdal. - Paratoi OBC ar gyfer cymeradwyaeth Mawrth 2023.		Penderfyniadau i'r mecanwaith cyllido eu hangen cyn y gellir cyflwyno OBC i'w gymeradwyo
Hwb Hydrogen Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	- Derbyniwyd ceisiadau mewn ymateb i'r Her Noddwr Hydrogen. Wedi eu sgorio a'u cymedroli. - Mae cwestiynau eglurhad wedi'u rhoi i'r cynigwyr.	- Cyfweliad technegol ar gyfer darpar noddwyr cyn i'r asesiad terfynol ddod i ben. - Cyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Mawrth 2024 i ddewis noddwr.		Ceisiadau a dderbynnir gan sefydliadau credadwy, ychydig o oedi gyda'r broses i flaenoriaethu ar y gweill â blaenoriaeth o brosiectau, ond nid yw'r amserlenni cyffredinol yn cael eu heffeithio
Egni Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	- Aeth datblygiad Cam 2 RIBA ymlaen i'r amserlen. - Cymeradwywyd OBC gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr	- Cyhoeddi a chytuno adroddiad Cam 2 RIBA. - Dechrau ar ddatblygu FBC. - Dechrau gweithgaredd Cam 3 RIBA.		Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ar amser ac ar y gyllideb.
Ynni Lleol Blaengar Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	- Cytuno ar y newidiadau sydd i'w hymgorffori yn y cynnig tendro diwygiedig - Sesiwn rhanddeiliaid a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o'r sector preifat a'r trydydd sector - adborth defnyddiol a dderbyniwyd i'w ymgorffori mewn tendr wedi'i ddiweddaru - Mecanwaith ffioedd wedi'i ddiweddaru	- Cwblhau'r dogfennau tendro - Ail-lansio'r tendr - Cwblhau strategaeth fuddsoddi a drafftio FBC.		Oedi cyn cwblhau'r FBC a lansio'r Gronfa oherwydd y methiant i benodi Cynghorydd Cronfa ar yr ymgais gyntaf

Trawsfynydd Cwmni Egino	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	Dim cynnydd sylweddol gyda'r prosiect hwn ers yr adroddiad diwethaf oherwydd ansicrwydd ynghylch y broses o ddewis safleoedd dan arweiniad Llywodraeth y DU	Datganiad diweddar Llywodraeth y DU o ymgynghoriadau a map ffordd ar gyfer adolygu niwclear gyda Cwmni Egino i ddeall yr effeithiau ar y prosiect		Ansicrwydd ynghylch amserlenni cyflenwi rhaglenni hyd nes y bydd proses dewis y safle wedi'i chwblhau gan Lywodraeth y DU
Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy The Circular Economy Developments Limited	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	- Adolygiad Porth wedi'i gwblhau - Cymeradwywyd OBC yng nghyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd Rhagfyr - Contractau ar waith gyda chontractwyr EPC & O&M	- Gweithredu argymhellion OBC a pharatoi FBC - Cytuno ar gytundeb ariannu - Cwblhau asesiad rheoli cymhorthdal		Cytundeb cyllido i'w gwblhau ac asesiadau rheoli cymhorthdal i'w cwblhau cyn cymeradwyaeth yr FBC sy'n cyflwyno rhywfaint o risg.
Hwb Hydrogen Caergybi Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	- Ove Arup cyfarfod cychwynnol i gefnogi Datblygu OBC ac FBC. - Cyfarfodydd peirianeg parhaus, ymgysylltu contractwyr sifil ar gyfer astudiaethau geodechnegol bwrdd gwaith. Datblygu rhwyddineb cysylltiad cyfleustodau. Cychwyn trafod caffael plot. - Derbyniwyd astudiaethau cysylltiad grid.	- Cwblhau astudiaethau geotechnegol, cytundeb cysylltiad a thopoleg grid 132kV. - Cyflwyno adnodd cymorth MM ychwanegol. - Cynnydd datblygiad OBC. - Adolygiad Porth a chyflwyniad drafft OBC.		Penderfyniadau buddsoddi sy'n ofynnol gan fuddsoddwyr allanol (EDF a Llywodraeth y DU) sy'n ddibynnol ar eraill

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.	2280	£1.29bn	£355.4m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 37	• Warren Hall, Brychdyn - Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar effaith achos diogelwch maes awyr Penarlâg ar safle'r prosiect ac mae trafodaethau agos yn cael eu cynnal gydag Airbus UK. • Porth y Gorllewin, Wrecsam - Cynhaliodd y Cyngor, Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithdy i asesu argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd i gyflawni prosiect a model yn unol â'r pedwar prawf a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnal Adolygiad Traffig WELTAG O. i ddarparu adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llif a niferoedd traffig ar ôl y pandemig. • Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn llwyddiannus yn eu cais Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro i Lywodraeth y DU a gellid defnyddio swm dros dro o gyllid o'r prif swm a ddylfarnwyd i gynorthwyo i ddatrys y materion hyfywedd datblygu a achosir gan gynyddu costau adeiladu yn y diwydiant adeiladu. Mae'r cynnydd ar yr Achos Busnes Amlinellol drafft yn symud yn gyflym nawr. Cymeradwyodd y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo ym mis Rhagfyr y prosiect yn amodol ar gwblhau'r OBC a chwrdd â mannau gwybodaeth penodol. Cyflwynwyd y materion cydsynio sy'n weddill yn ymwneud ag amodau cynllunio a thrwyddedau sy'n ofynnol i gwblhau gwaith Cam 1 a chaniatáu i'r rhain ddechrau i'r Cyngor. • Porth Caergybi - Mae achos busnes amlinellol prosiect ehangu Porthladd Caergybi wedi'i gwblhau'n sylweddol. Cymeradwyodd y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo y prosiect yn amodol ar gadarnhad ar bwyntiau y cytunwyd arnynt. • Parc Bryn Cegin, Bangor - penodwyd SP Projects gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi darparu Uwchgynllun safle diwygiedig a chostau lefel uchel ar gyfer gwneud sylwadau. gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae'r rhain wedi bod yn ôl i SP Project a Llywodraeth Cymru. Disgwylir i gyfarfodydd rheolaidd y tîm prosiect ddechrau ym mis Ionawr 2024. • Stiwdios Kinnel - Ar ôl y cyfarfod cychwynnol ac ar safle mae Studio 50 wedi bod yn penodi eu tîm ymgynghori dros y chwarter diwethaf ac yn ymgysylltu â'u cyllidwyr sector preifat. Byddant yn rhannu eu hachos busnes ariannu ar gyfer ariannu'r sector preifat gyda'r PMO. • Porth Wrecsam - Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd adleoli 300 a mwy o swyddi'r Gwasanaeth Sifil o Lundain/y Siroedd Cartref i Wrecsam ym mis Rhagfyr i'w lleoli ar safle Porth Wrecsam. Bydd y Cyngor yn cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol ac yn awr yn dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol.

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Porth y Gorllewin, Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Cyngor, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i asesu ffordd ymlaen i helpu i gyflawni'r prosiect.	Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ac ariannu asesiad Welltag O ar ran y Cyngor. darparu asesiad sylfaenol o lifoedd a rhifau traffig fel ag y maent yn 2024.		Mae sgôr risg y prosiect yn parhau i fod yn goch tra bod yr adolygiad o allu'r prosiectau i fodloni profion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi priffyrdd yn cael ei gynnal.
R013	21.10.2020		Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Newid Gwleidyddol	Cyfarwyddwr Portfolio	Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portfolio, y rhaglenni a'r prosiectau.	4	4	16	↔	Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol. GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymïadau'r holl bartïon. Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU	N/A Wedi cwblhau Wedi cwblhau Parhaus	Y BWRDD UCHELGAIS, PMO Y BWRDD UCHELGAIS PMO PMO	2	4	8	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.Yn unol â buddsoddiad y sector preifat, mae'r raddfa risg yn parhau i fod yn uchel oherwydd y nifer isel o FBCs a gymeradwywyd hyd yma a chytundebau ariannu yr ymrwymwyd iddynt.	16/01/24
R007	21.10.2020		Ariannol	Buddsoddiad Sector Preifat	Swyddfa Rheoli Portfolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	5	20	↔	Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Lansio'r broses prosiect ar gyfer adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu gyda gwaith pellach i'w gomisiynu ddechrau 2023	N/A N/A Chwe 2023 Mawrth 2023	PMO/SROs y Prosiect PMO/SROs y Prosiect Y BWRDD UCHELGAIS, PMO PMO	4	4	16	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae diogelu buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda'r dewis o bum prosiect newydd drwy'r broses prosiectau newydd.	16/01/24
R008	21.10.2020		Ariannol	Buddsoddiad Sector Cyhoeddus	Swyddfa Rheoli Portfolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	4	16	↔	Mae holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu 2. Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf	Wedi cwblhau N/A	BWRDD UCHELGAIS PMO/SROs y Prosiect	4	4	16	↔	Agored	Wedi adolygu'r risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.Yn unol â buddsoddiad y sector preifat, mae'r raddfa risg yn parhau i fod yn uchel oherwydd y nifer isel o FBCs a gymeradwywyd hyd yma a chytundebau ariannu yr ymrwymwyd iddynt.	16/01/24
R018	01.10.2020		Ariannol	Cyllid referiw	Swyddfa Rheoli Portfolio ac Arianwyr y Prosiect	Os na fydd cyllid referiw digonol yn ei lle i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion.	4	5	20	▲	Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid referiw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Bwrdd Uchelgais PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais PMO yn edrych ar gyfalafu posib costau cyflog y prosiectau. Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro hyd at Mawrth 2025 Cais SPF i'r 5 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus, cais ar wahan wedi ei gyflwyno i Wrexham.	N/A N/A N/A Mai 2023 Medi 2023	PMO PMO, SRO y Prosiect PMO, SRO y Prosiect PMO PMO, Bwrdd Portfolio PMO	3	4	12	↔	Agored	Wedi adolygu'r risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae'r sefyllfa referiw wedi gwella drwy gynydd yn yr haenen uchaf i 2.15% ac diogelu arian drwy SPF. Dim penderfyniad cais SPF Cyngor Wrecsam.	16/01/24

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Adroddiad Cynnydd Argymhellion Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3
Dyddiad y cyfarfod	21 Mawrth 2024
Awdur	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet dros Addysg	Cynghorydd Beca Brown

GWEITHREDU ARGYMHELLION ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU YSGOLION UWCHRADD CATEGORI 3

	ARGYMHELLION	CAMAU A WEITHREDWYD
1.	Bod yr Awdurdod yn gwneud ceisiadau blynyddol i'r ysgolion am ddata cyfrwng iaith eu darpariaeth ac yn gwirio'r sefyllfa.	<i>Mae'r Adran eisoes yn casglu data cyfrwng iaith ar gyfer ysgolion uwchradd yn flynyddol ac mae'r data ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'i gasglu a'i goladu.</i> <i>Nid yw'r Adran mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu gwirio'r sefyllfa, ond rhoddir sylw i'r Gymraeg ac ethos ysgolion ymhob ymweliad a gynhelir i ysgolion.</i>
2.	Bod yr Awdurdod Addysg yn rhoi targedau penodol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd, sydd yn gydnaws â'r targedau sirol, gan fonitro cyflawniad.	<i>Mae'r Adran wedi penderfynu peidio gweithredu ar yr argymhelliad hwn hyd nes y bydd Polisi Iaith Addysg amgen ar gyfer Gwynedd wedi ei lunio.</i> <i>At hyn, mae'r tirwedd yn aneglur o safbwynt union ofynion y drefn gategoreiddio pan ddaw'n statudol, ynghyd â thrywydd a chynnwys terfynol Bil y Gymraeg.</i> <i>Mae capasiti adrannol i fonitro targedau unigol manwl yn brin ar hyn o bryd ac wrth i'r drafodaeth ddatblygu o gwmpas y polisi iaith yng Ngwynedd a Bil y Gymraeg gellid ystyried cynllunio, targedu a monitro ar lefel clwstwr.</i>

3.	Bod yr Awdurdod Addysg yn gofyn eto i CBAC gyhoeddi bob blwyddyn faint o ymgeiswyr sydd yn cwblhau papurau arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob pwnc. Dylid cyhoeddi'r ffigyrau ar lefelau cenedlaethol a sirol a rhoi ffigyrau ysgolion unigol i'r ysgolion hynny.	<i>Mae llythyr wedi ei yrru at Ian Morgan, Prif Weithredwr CBAC, gan y Pennaeth Addysg yn ymateb i'r argymhelliad hwn ac yn gwneud y cais hwn yn gadarn.</i>
4.	Bod yr Awdurdod Addysg yn addasu'r Polisi Iaith enghreifftiol ar gyfer ysgolion gan roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran beth a olygir wrth "ddwyieithrwydd".	<i>Mae'r Awdurdod Addysg wedi comisiynu Meirion Prys Jones i gydweithio â'r Adran fel ymgynghorydd llawrydd i ail-edrych ar Bolisi Iaith Addysg Gwynedd yn sgil newidiadau cenedlaethol yn y maes megis:</i> - <i>Cymraeg 2050</i> - <i>Cwricwlwm i Gymru</i> - <i>Y drefn gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</i> - <i>Bil Y Gymraeg</i> <i>Bydd yr Adran ar y cyd â Meirion Prys Jones yn ymgysylltu gydag ysgolion, aelodau a rhan-ddeiliaid ehangach wrth ail-edrych ar y Polisi Iaith dros y misoedd nesaf.</i>
5.	Bod yr Awdurdod Addysg yn amlinellu'n ddiamwys ei safbwynt o ran delio ag apeliadau i geisiadau a wrthodwyd gan ysgolion i newid cyfrwng y dysgu i'r Saesneg ar gyfer dysgwyr penodol.	<i>Rhaid dilyn trefn gwynion yr ysgol, ond gobeithir y bydd ail-edrych ar y Polisi Iaith Addysg drwy gomisiwn Meirion Prys Jones yn cynnig mwy o eglurder o ran disgwyliadau.</i> <i>Gobeithir hefyd y bydd y gofynion o ran darpariaeth drwy'r drefn gategoreiddio'n dod yn statudol.</i>
6.	Bod yr Awdurdod Addysg yn datblygu ac yn cynyddu'r cydweithio â'r ddwy ysgol Categori 3T mewn modd fydd yn cyflymu eu taith i fod yn ysgolion Categori 3.	<i>Mae'r Adran yn rhannu'r un awydd i weld cynnydd yn yr ysgolion trosiannol. Mae'r Adran yn cydnabod fod arweinyddiaeth yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Mae'r Adran hefyd yn cydnabod fod cynllunio ieithyddol, newid diwylliant, newid ymddygiadau a datblygu sgiliau yn broses sydd yn debygol o gymryd amser i wreiddio a sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfir ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc, a hynny mewn cyfnod hynod o heriol o ran adnoddau i gefnogi'r newid hwn.</i> <i>Rhaid cydnabod hefyd fod y fwyaf heriol yn ieithyddol o'r ddwy ysgol drosiannol wedi wynebu heriau aruthrol a di-gynsail eleni o ran arweinyddiaeth ysgol sydd yn golygu fod cynllunio ieithyddol wedi bod yn anodd.</i>

7.	Bod yr Awdurdod Addysg mewn partneriaeth ag ysgolion yn dod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo'r budd o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	<i>Mae hyrwyddo manteision cael addysg Gymraeg yn faes pwysig cyson i'n hysgolion. Yn ychwanegol at hynny mae rhai ysgolion uwchradd wedi derbyn ymweliad hyrwyddo'r Gymraeg gan Ameer Davies Rana, fel rhan o dîm Hansh Dim Sbin, S4C, yn ystod tymor yr Hydref 2023. Cafwyd cyflwyniadau, cwis a gweithdai creu fideos TikTok. Bu'r ymweliadau'n llwyddiant, a'r disgyblion yn amlwg wedi eu mwynhau.</i> <i>Mae Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd wedi cynnal sesiynau 'Ymwybyddiaeth Iaith' mewn rhai ysgolion – Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Bro Idris, Ysgol Uwchradd Tywyn. Cafwyd cyfle i ystyried y manteision a ddaw o fod yn ddwyieithog, ac yn benodol wrth baratoi at fyd gwaith.</i> <i>Mae pamffledi a phosteri yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd wedi cael eu rhannu gyda'r ysgolion.</i>
8.	Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r bartneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan roi pwyslais ar ddangos i bobl ifanc a rhieni bod amrediad eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac addysg bellach.	<i>Mae holl ysgolion uwchradd Arfon (ar wahân i Ysgol Friars), ysgolion Dwyfor ac Ysgol Godre'r Berwyn wedi derbyn ymweliad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2024.</i> <i>Pwrpas yr ymweliadau oedd hyrwyddo'r budd a ddaw o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog balchder yn eu Cymreictod. Yn ogystal, cafwyd cyfleoedd i hyrwyddo'r budd o astudio'r Gymraeg ar gyfer Safon Uwch. Cafwyd cyflwyniadau gweledol a chyfle i holi a gwrandao ar banelwyr (rhai yn gyn-ddisgyblion o'r ysgolion yr oeddent yn ymweld â hwy) yn trafod gwerth astudio'r Gymraeg ar gyfer Safon Uwch ar gyfer dilyn amrywiol yrfaoedd. Cafwyd croeso mawr i'r ymweliadau gan y disgyblion, a gwelwyd cryn sylw ar gyfryngau cymdeithasol y Coleg Cymraeg i'r digwyddiadau.</i>
9.	Dylai'r Awdurdod roi mwy o ganllawiau/hyfforddiant ar sut i addysgu hwyrddyfodiaid nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg. Dylai'r Awdurdod Addysg hefyd ystyried defnyddio enghreifftiau o lwyddiannau dysgwyr gan hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, dylid cyfathrebu'r manteision i hwyrddyfodiaid o fynychu Canolfan Iaith gan adrodd ar brofiad dysgwyr penodol a chyfleu persbectif eu rhieni er mwyn arddangos i rieni eraill y budd i'w plant o fynychu Canolfan Iaith.	<i>Mae'r Gyfundrefn Addysg Drochi wedi croesawu dysgwyr nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg i'r unedau trochi ac yn parhau i wneud hynny e.e. cyfeiriwyd nifer o ffoaduriaid Wcraïn i'r unedau a llwyddodd y dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn dda. Derbyniwyd arian grant i'w cefnogi a phrynwyd iPad i bob un o'r unedau trochi er mwyn gallu defnyddio'r ap 'Say hi'. Mae'r ap hwn yn cyfieithu iaith lafar ar y pryd ac wedi profi'n offeryn pwerus ar ddechrau'r cyrsiau i hwyluso cyfathrebu a dealltwriaeth efo'r dysgwyr.</i> <i>Trwy weithio efo Adran Addysg y Brifysgol crëwyd podlediad i hysbysebu manteision dysgu Cymraeg a rhannu arferion da, a gwnaethpwyd hynny trwy, er enghraifft, gyfweld cyn-ddisgyblion o ganolfannau iaith a'u teuluoedd er mwyn rhannu eu profiadau o ddysgu'r iaith: <u>Podlediad Am Filiwn (ypod.cymru)</u></i>

		<i>Hefyd trefnir cyfarfod ar y cyd hefo Hunaniaith, Menter Iaith Gwynedd ar gyfer holl rieni'r dysgwyr sy'n mynychu'r unedau yn dymhorol er mwyn rhannu manteision dysgu Cymraeg.</i>
10.	Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.	<i>Mae'r Awdurdod wedi gwneud cais llwyddiannus i gymryd rhan mewn rhaglen beilot Llywodraeth Cymru 'Say Something in Welsh'. Bellach mae'r rhaglen hon ar waith yn ysgolion uwchradd y sir ar gyfer cefnogi dysgwyr bl 10 ac 11 oed i ddysgu'r Gymraeg.</i> <i>Yn ogystal mae staff yr unedau yn cefnogi staff ysgolion trwy ddarparu adnoddau ar gyfer y garfan yma o blant sy'n cyrraedd ysgolion Gwynedd ym mlwyddyn 10.</i>
11.	Bod yr Awdurdod Addysg yn cydweithio â sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.	<i>Mae'r Awdurdod yn gweithio â Menter Iaith Gwynedd i gynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn treialu gweithdy penodol efo plant Ysgol Pont y Gof ym Motwnnog. Rydym wedi comisiynu Anni Llŷn i greu sioe efo'r plant a'i pherfformio i'r rhieni mewn digwyddiad cymunedol. Bydd y plant yn perfformio ar 20fed Mawrth yng Nghanolfan Congl Meinciau Botwnnog. Y bwriad yw defnyddio'r model hwn wedyn mewn cymunedau targed eraill yng Ngwynedd.</i> <i>Mae Menter Iaith Gwynedd hefyd yn cydweithio â'r ardaloedd sydd yn flaenoriaeth – sef dalgylch Botwnnog, Godre'r Berwyn a Bangor. Trefnir gig gyda Tara Bandito yn Ysgol Botwnnog cyn diwedd Tymor y Gwanwyn. Bydd Tara Bandito hefyd yn cynnal gweithdai ar Lesiant a Merched mewn Cerddoriaeth, petai'r ysgol yn dymuno hynny. Bydd pum ysgol uwchradd arall hefyd yn elwa o'r daith, sy'n cael ei threfnu ar y cyd â Selar a Golwg 360.</i> <i>Ar gais Ysgol Uwchradd Tywyn, bydd y Fenter Iaith yn cefnogi cyfleoedd i ddisgyblion o flwyddyn 7 fynychu diwrnod yng ngwersyll Glan-llyn er mwyn cael profiadau allgyrsiol drwy gyfrwng Y Gymraeg. Bydd y fenter yn cyfrannu £1000 tuag at y daith.</i> <i>Fel rhan o'r arlwy a drefnir yn ddalgylchol fel rhan o gynlluniau Grant Y Gymraeg, cynllunnir cyfleoedd niferus i ddisgyblion gydweithio gydag artistiaid amrywiol. Bu cyfleoedd hefyd, o ganlyniad i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 i ysgolion fynychu gigs a drefnwyd fel rhan o Daith Maes B.</i>

12.	Dylai'r Awdurdod Addysg hyrwyddo'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer athrawon sydd yn dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.	<i>Mae'r Awdurdod wedi derbyn cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu athrawon i fynychu cyrsiau Cymraeg Mewn Blwyddyn. Mae hyn yn rhan o gynlluniau'r ysgolion trosiannol i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg. Bydd cynlluniau tebyg yn cael eu rhyddhau yn fuan hefyd ar gyfer cyrsiau cymorthyddion. Bydd y cyrsiau hyn yn cychwyn ym Medi 2024. Mae'r ysgolion wedi derbyn y ffurflenni cais i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth</i>
13.	Bod yr Awdurdod Addysg yn hyrwyddo'r cyfleoedd/buddion yn deillio o ddysgu yn y sir er mwyn denu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg i weithio yng Ngwynedd. Dylai hefyd gefnogi'r ymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon dwyieithog sydd ar gael i Gymru gyfan.	<i>Mae'r adran addysg yn weithredol yn gyson wrth recriwtio mor eang â phosib a hyrwyddo ein swyddi addysg allweddol.</i> <i>Hefyd mae prosiect blaenoriaeth allweddol wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor o safbwynt Cynllunio'r Gweithlu. Prif nod y prosiect ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg. Eleni, fel enghraifft, mae cefnogaeth wedi ei roi i fod yn llenwi dau brentisiaeth Cefnogi Dysgu yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, sydd wrth gwrs yn faes allweddol ble fo yna alw sylweddol am arbenigedd.</i> <i>Mae trafodaethau eisoes ar y gweill hefyd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gydweithio ar ddau brosiect perthnasol:</i> • Dysgu'r Dyfodol <i>Nod cynllun Dysgu'r Dyfodol yw cynyddu'r niferoedd sy'n ymuno â'r gweithlu addysg Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig sesiynau mentora a phrofiad gwaith i fyfyrwyr prifysgol ar unrhyw gynllun gradd sy'n siarad Cymraeg ac sydd â diddordeb gwybod mwy am yrfa fel athro ysgol. Mae'r sesiynau mentora'n gyfle i'r myfyrwyr ddod i ddeall mwy am sut i hyfforddi i fod yn athro, y profiad o fod yn athro yng Nghymru, a'r hyn sydd ar gael i athrawon gyrfa gynnar. Y bwriad yw ysbrydoli myfyrwyr i gymryd cam tuag at yrfa ym myd addysg Cymru, ac yn benodol i ddilyn cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg.</i> • Cadw Cyswllt <i>Nod cynllun Cadw Cyswllt yw creu a chadw cyswllt gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n astudio yn y brifysgol tu allan i Gymru – yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Lloegr. Y bwriad yw creu cymuned o fyfyrwyr tu allan i Gymru i roi gwybod am bob math o gyfleoedd posib - digwyddiadau, adnoddau, hyfforddiant, grantiau ac ysgoloriaethau, swyddi,</i>

		<i>cyfleoedd astudio (gan gynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon) ac ymchwil yng Nghymru, er mwyn ceisio denu nhw nôl ar ôl iddyn nhw raddio.</i>
14.	Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais bod Uwch Dimau Rheoli Ysgolion Uwchradd yn rhoi sylw penodol i'w darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ei roi ar raglenni cyfarfodydd yn rheolaidd.	<i>Mae yna aelod o Uwch Dîm Rheoli pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd â chyfrifoldeb penodol am y Gymraeg yn yr ysgol honno a'r cais i sicrhau fod maes y Gymraeg yn cael ei drafod ar y lefel briodol.</i> <i>Mae Grŵp Strategol y penaethiaid Uwchradd wedi trafod y Gymraeg yn ddiweddar a byddant yn cael eu cynnwys yn fanwl yn y broses wrth adolygu'r Polisi Iaith.</i> <i>Mae cyswllt agos gyda'r uwch arweinydd dynodedig â Chydlynnydd y Strategaeth Iaith. Bydd unrhyw gyfleoedd sy'n codi i ddisgyblion ymgymryd ag unrhyw weithgareddau neu gystadlaethau o fewn y Sir yn cael eu rhoadru â'r ysgolion.</i> <i>Arferir gweithrediad y Strategaeth yn flynyddol, a gosodir targedau i ysgolion fod yn gweithredu arnynt yn ystod blwyddyn academaidd.</i>
15.	Bod yr Awdurdod Addysg yn gwneud cais i'r Fforwm Penaethiaid Uwchradd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eitem ar raglen cyfarfodydd y Fforwm o leiaf un waith y flwyddyn.	<i>Mae'r Adran eisoes yn gweithredu'n unol â'r argymhelliad yma.</i>
16.	Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau astudio yn y Gymraeg yn enwedig ar-lein.	<i>Mae ein hysgolion uwchradd i gyd ac eithrio un yn aelodau gweithredol o CYDAG ac yn gyson yn rhoi pwysau yn genedlaethol o blaid adnoddau ac addysg Gymraeg.</i> <i>Er tegwch mae gwelliant wedi bod yn y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf ac fe dynnwn sylw yma at dri llwyfan allweddol:</i> <i>Mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, fel y bwrdd arholi cenedlaethol yng Nghymru, yn cyhoeddi ei holl adnoddau yn ddwyieithog ac maent erbyn hyn hefyd yn datblygu adnoddau astudio a chefnogi hefyd sydd ar agel yn gyfan gwbl ddwyieithog: WJEC Educational Resources Website (cbac.co.uk)</i> <i>Mae Llywodraeth Cymru ers blynyddoedd wedi datblygu llwyfan HWB er mwyn lletya ei holl adnoddau a'u teclynau digidol – ac mae'r holl adnoddau yma wrth gwrs ar gael yn y Gymraeg: Hwb (gov.wales)</i> <i>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn lled ddiweddar wedi sefydlu cwmni Adnodd er mwyn comisiynu adnoddau safonol i gefnogi Cwricwlwm i Gymru gydag Emyr</i>

		<i>George bellach yn Brif weithredwr. Unwaith eto ni fydd yr un adnodd ar Adnodd heb fod yn gwbl ddwyieithog: Adnodd – dyfodol adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru / Addysg Cymru (llyw.cymru)</i>
17.	Bod yr Awdurdod Addysg yn cynnal trafodaethau gyda GwE yng nghyswllt cefnogaeth ar faterion penodol/unigryw i'r Sir.	<i>Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ar y 12fed o Orffennaf ei bwriad i adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru.</i> <i>Comisiynwyd yr Athro Dylan Jones i arwain ar y gwaith ac fe fu iddo gyfarfod a chynrychiolaeth o Benaethiaid Gwynedd a swyddogion yr Adran Addysg yn ystod tymor yr Hydref.</i> <i>Mae llythyr yr Athro Dylan Jones i'w gael yma.</i> <i>Ar y 31ain o Ionawr bu i'r Gweinidog Addysg, yn dilyn cyfarfod efo'r tîm adolygu yn mis Rhagfyr, gyhoeddi prif ganfyddiadau'r adolygiad a hynny rai misoedd yn gynnar gan nodi fod negeseuon cyson o bob rhan o'r system addysg</i> <i>Yn ôl y Gweinidog roedd yr adborth yn glir ynghylch y cyfeiriad a ffefrir ymhlith arweinwyr ysgolion a'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. O ystyried y ffaith bod y negeseuon hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth ehangach, bu iddo gytuno â'r tîm adolygu nad parhau i drafod nodweddion y system bresennol, a safbwyntiau pobl ar draws y system yw'r ffordd orau o gael budd o'r adolygiad.</i> <i>Bu iddo symud yr adolygiad ymlaen i gam newydd a phenderfynu y bydd yn defnyddio'r cam hwn i archwilio beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar dair lefel:</i> <i>1. Cefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol</i> <i>2. Cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol</i> <i>3. Cefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar lefel genedlaethol</i> <i><u>Yr oedd yn glir o'r pwynt yma ymlaen nad oes bwriad gan y Llywodraeth i barhau gyda threfniadau Consortiwm neu Bartneriaethau Rhanbarthol.</u></i> <i>O ystyried fod y tirwedd yn newid yn sylweddol dros y misoedd a'r flwyddyn nesaf yng nghydestun y gefnogaeth i wella ysgolion a rôl awdurdodau lleol, bydd yr Adran yn rhoi sylw penodol i'r gefnogaeth a roddir i'r Gymraeg yn y trafodaethau hynny hefyd.</i>

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Prydau Ysgol am Ddim
Dyddiad y cyfarfod	21 Mawrth 2024
Awdur	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet dros Addysg	Cynghorydd Beca Brown

1. CEFNDIR

1.1 Ar 17 Rhagfyr 2021, bu i Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gyhoeddi datganiad ysgrifenedig a oedd yn estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru.

1.2 Mae’r polisi yn rhan o’r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ac yn deillio o’r ddealltwriaeth bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol, a thrwy weithredu’r cynllun Prydau ysgol am Ddim, bod 196,000 yn rhagor o blant yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru. Dyma linc i ddatganiad llawn Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg: [Datganiad Ysgrifenedig: Estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd \(17 Rhagfyr 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

1.3 Wrth wireddu’r ymrwymiad cred Llywodraeth Cymru y byddai’n gyfrwng i gyfrannu at:

- fynd i’r afael â thlodi/problem plant yn mynd yn llwglyd,
- sicrhau lles cenedlaethau’r dyfodol a lleihau anghydraddoldeb,
- dileu stigma,
- arferion bwyta ac agweddau iach.

1.4 Yn Ebrill 2022, penderfynwyd cynnwys cinio am ddim i ddisgyblion cynradd fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor er mwyn adlewyrchu’r flaenoriaeth genedlaethol, ac er mwyn cyfarch y newidiadau angenrheidiol fyddai eu hangen i seilwaith ein darpariaeth cinio ysgol.

2. BUDDSODDIAD CYFALAF A REFENIW LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bod £25m o arian cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yng ngheginiau a neuaddau bwyta ysgolion Cymru fel rhan o’r cynlluniau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant cynradd Cymru yn raddol dros gyfnod o 3 blynedd, gan gychwyn gyda’r plant ieuengaf, gyda’r bwriad y byddai pob disgybl cynradd yn gallu derbyn prydau ysgol am ddim erbyn Medi 2024.

2.2 Roedd gwariant cymwys ar gyfer y cyllid hwn yn cynnwys y costau cyfalaf canlynol:

- prynu offer newydd;
- uwchraddio offer presennol;
- uwchraddio cyfleusterau bwyta/cegin bresennol; a
- gweithio i gynyddu capasiti’r seilwaith prydau ysgol

2.3 Yn Chwefror 2022, bu i Gyngor Gwynedd dderbyn llythyr grant yn clustnodi £1,121,603 o arian cyfalaf (100%) gan Lywodraeth Cymru.

2.4 Aeth yr Adran Addysg ati i gydweithio gyda'r Uned Datblygu Eiddo, Adran Tai ac Eiddo i sicrhau offer pwrpasol a gofod cegin a neuaddau bwyta digonol ymhob un o ysgolion cynradd y sir.

2.5 Bu i 49 ysgol gynradd ac arbennig dderbyn offer cegin newydd. Buddsoddwyd mewn addasiadau neu estyniadau i'r gegin neu neuadd fwyta mewn 16 ysgol gynradd er mwyn cyfarch y niferoedd uwch o blant fyddai angen darparu cinio ysgol ar eu cyfer.

2.6 Mae cyfnod gwariant yn arian cyfalaf yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ac mae'r Adran Addysg wedi llwyddo i wneud defnydd o'r arian cyfalaf hwn i gyd.

2.7 Ym Mawrth 2022, bu i Lywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi y byddai cyllid refeniw o hyd at £200m yn cael ei neilltuo i awdurdodau lleol i gyflawni'r ymrwymiad, gyda'r arian yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol dros 3 blynedd fel a ganlyn:

- £40m yn 2022-23
- £70m yn 2023-24
- £90m yn 2024-25

Prif ddiben yr arian refeniw yma yw cynorthwyo gyda chyfarch costau staffio uwch yn sgil y cynnydd yn niferoedd y dysgwyr fyddai'n manteisio ar y cynnig o ginio ysgol am ddim.

2.8 O ganlyniad i'r buddsoddiad ariannol a'r cydweithio rhwng yr Adran Addysg a'r Adran Tai ac Eiddo, llwyddwyd i wireddu'r cynnig o ginio ysgol am ddim i bob plentyn cynradd yng Ngwynedd erbyn 1 Medi 2023, Yng Ngwynedd, daethpwyd â'r cynnig i mewn yn raddol fel a ganlyn:

BLYNYDDOEDD	AMSERLEN
Derbyn a Blwyddyn 1	1 Medi 2022
Blwyddyn 2	1 Ionawr 2023
Blwyddyn 3 a 4	5 Mehefin 2023
Blwyddyn 5 a 6	1 Medi 2023

2.9 Llwyddwyd i gyflawni'r ymrwymiad o ddarparu cinio ysgol am ddim yng Ngwynedd flwyddyn union o flaen yr amserlen genedlaethol. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu unrhyw Awdurdod Lleol fyddai mewn sefyllfa i gynnig prydau ysgol am ddim cyn yr amserlen genedlaethol.

3. NIFEROEDD SY'N MANTEISIO AR Y CYNNIG CINIO AM DDIM ERS MEDI 2023

3.1 Mae'r Adran Addysg wedi bod yn casglu data ar y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig cinio am ddim ers cyflwyno'r cynnig ym mhob ysgol nol ym mis Medi 2023. Mae casglu'r data yn ein helpu i adnabod ysgolion l'w targedu.

3.2 Cesglir data ar draws yr 79 ysgol gynradd (nid yw'n cynnwys data y ddwy ysgol arbennig, na'r ddwy ysgol ddilynol). Cesglir y data ar sail ysgol gyfan a fesul blwyddyn ysgol. Rydym yn casglu data


- niferoedd prydau a disgyblion hPYD (Hawl i Prydau Ysgol am Ddim)
- niferoedd prydau a disgyblion PYD (Prydau Ysgol am Ddim)
- niferoedd prydau a disgyblion nad ydynt yn cymryd y cynnig prydau ysgol am ddim ond yn hytrach yn dewis mynd a'u pecynnau bwyd eu hunain i'r ysgol.

3.3 Er fod bob plentyn yn gymwys i ginio ysgol am ddim yn y cynradd erbyn hyn rydym yn parhau i gasglu data hawl i PYD, gan ei fod yn fesurydd gaiff ei ddefnyddio fel procsi amddifadedd ar gyfer yr angen ychwanegol i'w wario ar addysgu a gwasanaethau eraill yn y setliad, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer yr angen i wario ar brydau ysgol.

3.4 Adroddir yn fisol ar niferoedd y prydau a ddarperir i Lywodraeth Cymru.

3.5 Mae'r data a gyflwynir isod ar gyfer y cyfnod o Fedi 2023 hyd at ddiwedd Ionawr 2024.

3.6 Ar gyfartaledd hyd yma mae 66.75% o'r prydau a ddarperir yn PYD, mae 17% yn hPYD (83.79% mewn cyfanswm), a mae 15.34% yn cymryd bwyd eu hunain (bocs bwyd).




3.7 Cyn y cyflwynwyd y Cynnig Cinio Ysgol am Ddim i Bawb roedd 1674 o blant yn cael hPYD yn ein ysgolion cynradd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol 22-23. Cyflwynwyd y cynnig cinio ysgol am ddim i bawb ar gychwyn blwyddyn ysgol 22/23 (wele 2.8 uchod).

3.8 Mae niferoedd plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim yn amrywio yn ddyddiol, ac yn amrywio o ysgol i ysgol oherwydd materion fel absenoldebau, dyddiau triplau mewn ysgol, dyddiau hyfforddiant mewn swydd, a dewis y plentyn o ran cymryd cinio ysgol ambell ddiwrnod a pecyn bwyd ar ddyddiau eraill.

3.9 Rydym yn casglu niferoedd o blant sy'n derbyn cinio yn yr ysgol drwy sampl ar ddiwrnod o bob mis. Nodir isod niferoedd y plant sy'n cael PYD yn ôl y misoedd. Mae dros 4000 yn fwy o blant yn derbyn cinio ysgol yn sgil y cynllun hwn.


Mis	Nifer y Disgyblion yn derbyn cinio Ysgol am ddim ar y diwrnod	Canran o ddisgyblion sy'n derbyn cinio Ysgol am ddim ar y diwrnod
Medi 2023	5937	78%
Hydref 2023	6169	81%
Tachwedd 2023	5969	78%
Rhagfyr 2023	5847	76%
Ionawr 2024	5806	76%

3.10 Yn seiliedig ar y niferoedd prydau a ddarperir mae amrywiaeth yn y cyfartaledd sy'n manteisio ar y cynnig ar draws ardaloedd ac ysgolion unigol, fel a ganlyn :- Arfon sydd a'r gyfartaledd isaf gyda 63% o brydau a ddarperir yn PYD, yna Dwyfor gyda 71%, a Meirionnydd gyda'r mwyaf o blant yn manteisio ar y cynnig gyda 73%.



3.11 Mae'r ysgol sydd a'r ganran uchaf o brydau PYD wedi eu darparu gyda cyfartaledd o 96%, a'r ysgol gyda'r ganran isaf yn dangos cyfartaledd o 30%.

3.12 Yn gyffredinol, mae cyfraddau uwch o brydau PYD yn cael eu bwyta gan blant y blynyddoedd Derbyn, 1 a 2 ac mae'n gostwng ym mlynnyddoedd 5 a 6.



4. BARN DYSGWYR AR GINIO YSGOL

- 4.1 Yn ogystal i ddata ar niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am fodlonrwydd a barn plant ar y ddarpariaeth.
- 4.2 Defnyddir iPad yr ysgol a gofynnir i'r plant fewnbynnu eu barn drwy app pwrpasol. Cesglir y data dros gyfnod o wythnos o bob mis fel y gallai'r plant nodi eu barn ar ôl blasu amrywiaeth o'r fwydlen wythnosol. Nid ydym yn casglu barn bob ysgol ar yr un cyfnod, rydym yn casglu data o sampl o ysgolion.
- 4.3 Rydym yn gofyn i'r ysgol sicrhau mai'r plant yn unig sy'n cwblhau'r holiadur heb fewnbwn gan yr athrawon, cymorthyddion na staff y gegin.
- 4.4 Ers mis Medi 2023 rydym wedi gael 448 ymateb gyda 78% yn fodlon gyda'r arlwy.
- 4.5 Mae'r app hefyd yn rhoi'r cyfle i blant ysgrifennu sylwadau am y ddarpariaeth, a dyma rai o'r rheiny sydd wedi eu derbyn :

"Lecio bob dim yna a ffordd ma nhw wedi cael ei cwcio"

"Eisiau stwnshio tatws mwy"

"Eisiau portion mwy plis"

“Dwin lecio meatballs, bawd i fyny am y gacen a cwstard”

5. DEILLIANNAU DYSGWYR YN SGIL GWEITHREDU'R CYNNIG CINIO AM DDIM

Barn Penaethiaid

- 5.1 Holwyd holl benaethiaid ysgolion cynradd Gwynedd am eu barn am ddeilliannau dysgwyr yn sgil gweithredu'r cynllun cinio am ddim i pob disgybl oedran cynradd. Derbyniwyd 52 ymateb o 78 posib (66%). Derbyniwyd nifer o sylwadau diddorol a defnyddiol fel rhesymau posib pan nad oedd rhai disgyblion yn parhau i ddewis peidio derbyn cinio ysgol. Mae dadansoddiad o'r holiaduron a crynodeb o sylwadau'r penaeithiaid i'w gweld yma - [Data holiadur Cinio am ddim.docx](#)
- 5.2 Yr oedd 75% o'r penaeithiaid a ymatebwyd yn nodi eu bod nhw o'r farn fod mwy o ddisgyblion yn bwyta'n fwy iachus ers gweithredu'r cynllun a 23% yn nodi nad oeddynt yn gweld gwahaniaeth. Yr oedd y canran o ddisgyblion oedd eisoes yn bwyta cinio ysgol eisoes yn uchel yn y mwyafrif o ysgolion a nodwyd nad oeddynt yn gweld llawer o newid.
- 5.3 Nododd 36% o benaethiaid eu bod or farn bod ymddygiad y disgyblion oedd yn derbyn cinio ysgol wedi gwella gyda 49% yn nodi cynnydd mewn lefel canolbwyntio, 40% yn nodi cynnydd mewn ymroddiad disgyblion a 40% yn nodi gwelliant mewn cyflawniad yn y prynhawniau.

6. HERIAU'R GWASANAETH ARLWYO I DDARPARU'R CYNNIG

- 6.1 Prif her i'r gwasanaeth arlwyo yw cael digon o weithlu ar draws yr holl ysgolion, sy'n cynnwys gweithlu wrth gefn ar gyfer llenwi i mewn yn unrhyw ysgol mewn cyfnodau o absenoldebau. Mae'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau wedi wynebu'r her hon ers gychwyn cyflwyno'r cynnig, ac yn parhau i fethu a chael gweithlu digonol. Ar ddechrau mis Mawrth roedd 9 swydd wag ar draws y gwasanaeth ynghyd a nifer uchel o absenoldeb oherwydd salwch.
- 6.2 Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymateb drwy recriwtio swyddi yn gyson, mynychu ffeiriau gwaith, hysbysebu swyddi ar y cyfryngau cymdeithasol, a dosbarthu posteri recriwtio mewn canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, meddygfeydd a chanolfannau Byw yn Iach.
- 6.3 O'r recriwtio sydd wedi bod, nid ydym yn llwyddo i ddenu ymgeiswyr mewn rhai ardaloedd (Dwyfor a Meirionnydd).
- 6.4 Mae adborth gan weithwyr yn awgrymu fod yr oriau, lefelau cyflogau, a'r cynnydd yn y cyfrifoldebau yn rwystr i ddenu ymgeiswyr.
- 6.5 Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar opsiynau i ymateb i'r heriau recriwtio hyn ar y cyd gyda awdurdodau cyfagos.
- 6.6 Mae'n anallu i recriwtio'n ddigonol hefyd yn cyfrannu tuag at lefelau salwch yn y gwasanaeth. Mae nifer o'r gweithwyr yn ymgymryd ag oriau ychwanegol er mwyn delio gyda prinder staff mewn ysgolion cyfagos.

- 6.7 Her arall i'r Gwasanaeth yw sicrhau fod y cynllun yn ariannol hyfyw. Ers cychwyn y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn talu ffi o £2.90 i'r Cyngor am bob pryd sy'n cael ei ddarparu i blentyn (gan eithrio plant rheini Incwm isel).
- 6.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y swm hwn fel "pris yr uned" yn isel ac felly maent bellach wedi codi'r swm o £2.90 i £3.20. Er hynny, roedd cost cynhyrchu pryd cyn i'r cynllun Cinio am Ddim i Bob Plentyn gychwyn, yn oddeutu £4.30.
- 6.9 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn llenwi'r blwch hwnnw drwy wneud peth arbedion ar sail fod cynnydd mewn niferoedd yn golygu bod posib gwneud arbediad ar gostau sefydlog, sy'n lleihau'r gost y pryd, ond mae'n annhebygol o gau'r bwlch yn llawn.
- 6.10 Wrth i brisiau bwyd a chostau cyflogi gynyddu mae'n allweddol fod y "pris yr uned" a dderbynnir gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth yn cynyddu i'r un gyfradd a bod y Cyngor yn derbyn "pris yr uned" sy'n cyfarch y wir gost.
- 6.11 Mae'r Adran Addysg gyda chefnogaeth y Tim Cyllid mewn trafodaeth barhaus gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r "pris yr uned".

7. CODI YMWYBYDDIAETH A HYRWYDDO'R CYNNIG CINIO AM DDIM

- 7.1 Ers lansio'r cynllun mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ar ymgyrch farchnata a chyhoeddusrwydd genedlaethol a gychwynnodd nol ym mis Mehefin 2022. Mae Tim y Wasg wedi bod yn cefnogi'r ymgyrch honno ac wedi bod yn defnyddio adnoddau'r pecyn i wneud gwaith hyrwyddo yn lleol. Mae'r ymgyrch honno wedi bod yn ymgyrch gyhoeddus ac wedi ei thargedu drwy'r ysgolion.
- [Hawliwch help gyda chostau ysgol | LLYW.CYMRU](#)
- 7.2 Yn ychwanegol mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn Adran Plant wedi bod yn hyrwyddo'r cynnig drwy'r Newyddlen i Deuluoedd; ac mae adran benodol am y cynnig wedi ei datblygu ar Wefan Costau Byw y Cyngor.
- 7.3 Mae'r Cyngor wedi penodi swydd dros dro yn yr Adran Addysg ar gyfer gwneud gwaith gyda ysgolion penodol a'r ymgyrchoedd lleol iawn.

8. CAMAU NESAF

- 8.1 Mae'r Swydd Hyrwyddo Cinio Ysgol bellach yn cydweithio gyda un o Hyrwyddwyr Lles y Cyngor i gysylltu'n uniongyrchol gyda teuluoedd sy'n parhau i gymryd pecyn bwyd yn hytrach na chymryd mantais o'r cynnig cinio am ddim. Mae'r swyddogion hyn yn gweithio gyda'r 2 ysgol sydd a'r cyfraddau isaf o blant sy'n derbyn cinio am ddim. Byddent yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r teuluoedd ac yn cwblhau arolwg gyda hwy.
- 8.2 Mae'r galwadau cychwynnol yn awgrymu fod rhieni yn darparu pecyn bwyd i'w plant oherwydd rhesymau megis nad ydynt yn ymwybodol o'r cynllun; yn ansicr am y bwyd a'r fwydlen; yn poeni am anghenion deietegol.
- 8.3 Bydd y swyddogion yn ymateb i ganfyddiadau eu harolygon ar sail ysgol drwy drefnu sgysiau pellach gyda'r teuluoedd; darparu gwybodaeth am fwydlenni; trefnu sesiynau blasu ac ati.

- 8.4 Byddai cefnogi teulu i fanteisio ar y cynnig yn dod ag arbediad o oddeutu £500 y plentyn ar gyfartaledd yn flynyddol iddynt.
- 8.5 Byddai cefnogi plant i gymryd mantais o'r cynnig yn sicrhau fod y plentyn yn cael eu gofynion maethlon ddyddiol o fraster, braster dirlawn, sodiwm, carbohydradau, ffibr, protîn, fitamin A, fitamin C, calsiwm, sinc a nifer o rai eraill.
- 8.8 Byddai cefnogi teulu i gymryd mantais o'r cynnig yn dod a incwm pellach i'r awdurdod o £608 y plentyn y flwyddyn, a hynny efallai efo cynnydd isel iawn yn y gost o ddarparu.
- 8.9 Bydd y gwaith o gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig yn rhedeg gyfochr a'r gwaith parhaus i recriwtio gweithlu digonol; casglu gwybodaeth ar fodlonrwydd ac adolygu'r bwydlenni; a cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r "pris yr uned".

9. ARGYMHELLION

- 9.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Holiaduron Cinio am ddim (Ionawr 2024)

Rhannwyd holiaduron gyda holl benaethiaid ysgolion cynradd ac arbennig y Sir i ddadansoddi'r buddiannau sydd wedi dod ynghlwm â'r cynllun darparu cinio am ddim i holl ddisgyblion ysgolion Cynradd Gwynedd ers Medi 2023.


Bu i **66%** o benaethiaid cynradd ymateb i'r holiadur

1. Ydi nifer y disgyblion sydd yn bwyta cinio ysgol wedi cynyddu ers i'r cynllun cinio am ddim i bawb gychwyn ym Medi 2023?

Yr oedd **48%** o'r ymatebion yn adrodd bod niferoedd oedd yn bwyta cinio ysgol yn sylweddol uwch, gyda **38%** yn nodi niferoedd uwch ac **13%** yn nodi bod y niferoedd wedi aros yn debyg. Yr oedd yr **13%** a nododd nad oedd llawer o gynnydd yn ysgolion gyda llai na 55 o blant ble oedd canran uchel yn bwyta cinio cyn y cynllun.

Yn sylweddol uwch	48%
Yn uwch	38%
Heb newid llawer	13%
Wedi lleihau	0%

Cynnydd sy'n bwyta Cinio Ysgol




■ Yn sylweddol uwch ■ Yn uwch
■ Heb newid llawer ■ Wedi lleihau

2. Ydy chi o'r farn bod mwy o ddisgyblion yn bwyta'n fwy iachus ar ôl i'r cynllun cinio am ddim gychwyn?

Yr oedd **75%** o'r farn fod disgyblion yn bwyta'n fwy iachus ar ôl i'r cynllun cinio am ddim gychwyn, gyda **23%** o'r farn nad oedd gwahaniaeth.


Yndw	75%
Nac ydw	1%
Dim gwahaniaeth	23%

Nifer sy'n bwyta'n fwy iachus



■ Yndw ■ Nac ydw ■ Dim gwahaniaeth

4. Yn eich barn chi, ydi'r canlynol wedi gwella yn y prynhawn wrth i fwy o ddisgyblion fwyta cinio ysgol?




Ymddygiad – Yr oedd **36%** o'r farn fod ymddygiad y disgyblion oedd yn derbyn cinio Ysgol wedi gwella gyda **2.1%** yn nodi gwelliant sylweddol. Nid oedd y gweddill yn adrodd gwahaniaeth yn ymddygiad y disgyblion yn y prynhawniau.

Canolbwyntio – Yr oedd **49%** yn nodi fod lefel canolbwyntio y disgyblion wedi cynyddu yn y prynhawniau gyda **2.1%** yn nodi gwelliant sylweddol. Nid oedd neb yn adrodd fod y lefel canolbwyntio wedi gwaethygu.

Ymroddiad - Yr oedd **40.4%** yn nodi gwelliant yn lefel ymroddiad y disgyblion yn y prynhawniau. Nid oedd neb yn adrodd fod lefel ymroddiad wedi gwaethygu.

Cyflawniad – Yr oedd **40.4%** yn nodi gwelliant yng nghyflawniad y disgyblion yn y prynhawniau. Nid oedd neb yn adrodd fod cyflawniad y disgyblion wedi gwaethygu.

5. Mae % isel o ddisgyblion Gwynedd yn dewis parhau i gael bocs bwyd. Beth, yn eich barn chi, yw'r rheswm dros hyn?



Yr oedd y penaeithiaid yn adrodd mai'r prif reswm nad oedd rhai disgyblion yn dod a bocs bwyd oedd nad oeddynt yn hoff o ginio Ysgol (**50%**), gyda **19%** yn nodi fod disgyblion gydag alergeddau yn dewis dod a bocs bwyd yn hytrach na cymryd cinio ysgol. Yr oedd **5%** yn nodi bod angen marchnata'r cynnig ymhellach ac **8%** yn nodi bod disgyblion yn dod a bocs bwyd i gael bwyta gyda ffrindiau. Yr oedd **15%** yn nodi rhesymau arall (crynodeb o resymau eraill isod)

"Arferion bwyta cartref yn gyfyng"

"ddim yn hoffi pysgod/pasta/tatws"

"carfan o blant yn ffysi"

"rhai bwydydd ddim yn apelio ar y fwydlen e.e. lobsogws. Mae well ganddynt ddod a pethau melys o adref"

"Dim yn hoffi'r dewis sydd ar y fwydlen"

"Plant yn mynnu cael ffordd eu hunain - mynnu bocs bwyd oherwydd nad ydynt yn hapus i drio bwydydd newydd. Problem rhiantu."

6. Yn eich barn chi, beth yn ychwanegol fyddai modd i'r Cyngor ei wneud i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sydd yn manteisio ar y cynnig o ginio am ddim?

Daeth 30 ymateb i'r cwestiwn yma – Crynodeb isod:

Hysbysu ac amlygu'r arbediad ariannol i rieni

Rhoi cynnig i ddisgyblion gynnig syniadau i'r fwydlen

Cynnig sesiwn blasu i rieni yn ystod nosweithiau rhieni

Cynnal dyddiau "arbennig" ee blwyddyn newydd chinees, Santes Dwynwen, Gwyl Ddewi

Bod dewis arall i blant sydd wir ddim yn hoffi rhywbeth penodol e.e. cyri

Rhoi dau ddewis yn ddyddiol - galluogi'r disgyblion sydd ddim yn hoffi rhai bwydydd i dderbyn cinio am ddim

Poster deniadol i ysgolion allu rhannu gyda rhieni / cyfryngau cymdeithasol yn syniad rhwydd i bawb. Sesiynau blasu wedi mynd i lawr yn dda yn y gorffennol

Cynnig i blant meithrin gael cinio yn yr Ysgol

Mwy o ddewis

7. Oes gennych unrhyw sylwadau pellach a fyddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor eu hystyried sy'n ymwneud â'r cynllun cinio am ddim?

Mae'r cynllun cinio am ddim wedi bod yn hynod boblogaidd efo rhieni a phlant yn yr ysgol hon, a dim ond 2 blentyn sydd yn parhau ar focs bwyd. Byddai yn beth da iawn petai y cynllun yn cael ei ymestyn i'r Uwchradd hefyd.

Sicrhau bod cinio yn ddigon swmpus i rai o'r dysgwyr. Ambell blentyn cynradd yn dalach na'u hathrawon, yn tyfu ac yn chwarae llawer mewn diwrnod. Dydy dau fys pysgodyn a sgŵp o datws stwnsh ddim yn ddigon i'w cynnal.

Mae'r cynllun cinio am ddim wedi bod yn boblogaidd iawn o fewn yr ysgol. Er hyn, mae ambell i ddiwrnod ar y fwydlen yn fwy/llai poblogaidd na'i gilydd efo'r disgyblion.

Diolchgar iawn am y cynllun

Cynllun gwerthfawr iawn, ond dim ond dau ddisgybl sydd wedi symud o ysgol ym Mhowys sydd yn cael brechdanau gan ei bod yn ffyslyd iawn